Banciau a Chymdeithasau Adeiladu

Beth ddywed y gyfraith

Cyn i chi agor cyfrif gyda banc neu gymdeithas adeiladu, rhaid i chi gael gwybod am y telerau a'r amodau er mwyn eich helpu i benderfynu os ydych am agor y cyfrif neu beidio. Ar ôl i chi agor y cyfrif, rhaid i'r banc ddwyn i'ch sylw unrhyw newidiadau i'r telerau a'r amodau, er mwyn i chi benderfynu ar y ffordd orau i ddefnyddio'ch cyfrif.

Wrth i chi agor cyfrif gyda banc neu gymdeithas adeiladu a defnyddio'u gwasanaethau rydych chi'n cychwyn ar gytundeb. Mae'r gyfraith yn dweud fod yn rhaid i'r banc neu'r gymdeithas adeiladu gyflawni eu busnes:-

- **gyda gofal a sgil rhesymol.** Mae hyn yn golygu, er enghraifft, fod yn rhaid i'r banc neu gymdeithas adeiladu weithredu'n gyfrifol a chadw cofnodion manwl o'ch arian; *a*
- **o fewn amser rhesymol, oni bai fod amser penodol wedi'i gytuno arno**. Bydd yr hyn sy'n rhesymol yn dibynnu ar y gwasanaeth mae'r banc yn ei gyflawni (er enghraifft, fe ddylai benderfynu ar gais am fenthyciad o fewn rhyw ddiwrnod neu ddau); *a*
- **am gost resymol,** oni bai fod pris pendant wedi'i gytuno arno.

Cofiwch:-

- **Nid oes rhaid rhoi cyfrif neu fenthyciad i chi**, ac nid oes rhaid i'r banc neu gymdeithas adeiladu roi unrhyw reswm os ydyw'n gwrthod gwneud hynny. Sut bynnag, ni all wrthod ar sail eich hil, rhyw, crefydd, rhywioldeb neu anabledd.
- Bydd y banc neu'r gymdeithas adeiladu am brawf o'ch hunaniaeth gan gynnwys eich enw llawn, dyddiad geni a chyfeiriad cyn caniatáu i chi agor cyfrif.
- Gall eich banc neu gymdeithas adeiladu drosglwyddo arian o'ch cyfrif **personol** i'ch cyfrif **ar y cyd**, i dalu am ddyled ar gyfrif ar y cyd **heb** eich caniatâd. Ond **ni all** drosglwyddo arian o'ch cyfrif **ar y cyd** i'ch cyfrif **unigol** heb ganiatâd pob un sydd â'i enw wrth y cyfrif ar y cyd, oni bai bod telerau ac amodau eich cytundeb gyda'r banc neu gymdeithas adeiladu yn dweud y gall hyn ddigwydd. Rhaid bod y telerau a'r amodau wedi eu dwyn i'ch sylw yn glir a phenodol.
- Hyd yn oed os ydych wedi gordynnu o'ch cyfrif, fe allwch ddewis sut y defnyddir unrhyw arian pellach gaiff ei dalu i'ch cyfrif (er enghraifft i dalu eich morgais neu rent). Gelwir hwn yn **hawl cyntaf i neilltuo arian**. Bydd angen i chi ysgrifennu atynt gyda chyfarwyddiadau newydd bob tro y byddwch yn talu arian i mewn i'r cyfrif.

Eich hawliau os ydyw'r gwasanaeth yn anfoddhaol

Iawndal
Efallai y bydd gennych hawl i gael iawndal os:

Hawlfraint © 2002-2011 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

- yw'r cytundeb wedi'i dorri (**tor cytundeb**), er enghraifft, os ydyw'r banc neu'r gymdeithas adeiladu yn methu anrhydeddu siec neu dalu archeb sefydlog neu ddebyd uniongyrchol pan mae digon o arian yn eich cyfrif i'w talu;
- yw'r banc neu gymdeithas adeiladu wedi bod yn **esgeulus** yn y ffordd mae wedi ymdrin â'ch cyfrif. Gan ei bod yn anodd iawn i brofi esgeulustod, efallai bydd hi'n haws i chi hawlio tor cytundeb, er enghraifft, nad yw wedi ymdrin â'ch sefyllfa gyda gofal a sgil rhesymol.

Bydd rhaid i chi ddangos eich bod wedi dioddef colled cyn y gallwch hawlio iawndal a bydd y swm y gallwch ei hawlio fel arfer yn gyfyngedig i'r swm yr ydych wedi'i golli mewn gwirionedd.

Newid eich banc neu gymdeithas adeiladu

Os ydych chi'n penderfynu newid eich cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu, fe ddylech chi ystyried:

- pa **dreuliau** fydd ynghlwm, er enghraifft, am gau'ch cyfrif neu ganslo archebion sefydlog; *a*
- os yw'r **gwasanaethau a'r cyfleusterau** a ddarperir gan y banc neu gymdeithas adeiladu newydd yn **well** na'r rhai yr ydych yn eu derbyn ar hyn o bryd; *a*
- **oedi** cyn gwneud **taliadau** trwy archeb sefydlog neu ddebyd uniongyrchol a chymryd hyn i ystyriaeth wrth benderfynu ar ddyddiad cau; *a*
- Pa mor **hir y bydd yn rhaid i chi aros hyd nes y gallwch ddefnyddio holl wasanaethau'r banc neu gymdeithas adeiladu newydd, er enghraifft, fe allai fod yna oedi cyn i chi dderbyn y cerdyn gwarantu siec**.

Fe ddylech agor cyfrif newydd cyn cau'r un presennol a sicrhau eich bod yn canslo unrhyw archebion sefydlog neu ddebydau uniongyrchol sydd eisoes yn bod. Gwnewch yn siŵr eich bod yn dychwelyd unrhyw sieciau sydd heb eu defnyddio neu gardiau plastig (wedi'u torri'n ddarnau) i'ch hen fanc neu gymdeithas adeiladu. Os ydych chi'n trosglwyddo gweddill i'ch cyfrif newydd, gwnewch yn siŵr eich bod yn gadael digon o arian yn eich hen gyfrif i dalu am unrhyw sieciau sydd heb eu clirio.

Rhaid i'ch banc neu gymdeithas adeiladu gydweithredu gyda'r banc neu gymdeithas adeiladu newydd i sicrhau fod y trosglwyddo i'ch cyfrif newydd yn digwydd mor esmwyth ag sy'n bosibl. Os oes gan eich hen fanc drefniant gyda'r banc newydd, rhaid i'ch banc drosglwyddo unrhyw weddill sydd yn y cyfrif a gwneud trefniadau parthed debydau uniongyrchol ac archebion sefydlog. Os nad oes trefniant yn bodoli, rhaid i'ch banc neu gymdeithas adeiladu gynnig gwasanaeth prydlon ac effeithiol yn unig i'ch helpu i gau'ch cyfrif a dychwelyd unrhyw arian sy'n ddyledus. Mae hyn yn cynnwys unrhyw log. Os oes unrhyw gamgymeriadau neu oedi yn y broses trosglwyddo sy'n arwain at dreuliau banc, ddylech chi ddim gorfod eu talu.

Treuliau Banc

Mae banciau a chymdeithasau adeiladu yn codi tâl am rai gwasanaethau. Rhaid dweud wrthych am y treuliau hyn cyn i chi ddod yn gwsmer. Os oes unrhyw newid yn y treuliau, rhaid tynnu'ch sylw at y rhain yn glir a phenodol. Mae banciau yn codi

Hawlfraint © 2002-2011 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

treuliau pan fyddwch chi wedi gordynnu heb gyfleuster gorddrafft y cytunwyd arno. Pan ewch chi dros y cyfyngiad gorddrafft y cytunwyd arno neu pan nad oes digon yn eich cyfrif i dalu am godiad arian, er enghraifft siec. Gelwir hwn yn orddrafft heb awdurdod. Yn aml ystyrir gorddrafftiau heb awdurdod i fod yn uchel iawn. Mae llawer o bobol wedi cwyno eu bod yn annheg ac wedi gofyn am ad-daliadau.

Oherwydd bod cymaint o gwynion am dreuliau gorddrafft annheg, cymerodd y Swyddfa Masnachu Teg (OFT) achos prawf drwy'r llys a gohiriwyd y penderfyniad ynglŷn â chwynion oedd eisoes yn bod.

Penderfynodd y Llys Goruchaf nad oedd gan OFT yr awdurdod i benderfynu os oedd y treuliau'n annheg. Mae'n debyg erbyn hyn y caiff eich cwyn ei wrthod, er fe ddylai eich banc eich trin gyda chydymdeimlad os allwch chi ddangos caledi ariannol.

Sut i ddatrys eich problem

Unwaith y byddwch wedi penderfynu beth yw'ch hawliau, fe fydd angen i chi gysylltu â'r banc neu gymdeithas adeiladu cyn gynted ag sy'n bosibl. Dylai'r camau canlynol ddatrys eich problem:

- **gwiriwch fod y broblem wedi'i hachosi gan y banc neu gymdeithas adeiladu**, er enghraifft, fydd y banc neu gymdeithas adeiladu ddim yn gyfrifol os rhowch chi eich cerdyn banc a'ch rhif pin i rywun arall a nhw'n defnyddio'r rhain i dynnu arian allan heb eich caniatâd.

- **casglwch eich dogfennau i gyd at ei gilydd,** gan gynnwys eich cytundeb, cyfriflenni banc a bonion sieciau.

- **cysylltwch â'r banc neu gymdeithas adeiladu** cyn gynted ag y dowch o hyd i'r broblem. Os ydych chi'n ymweld â'r banc neu gymdeithas adeiladu, ewch â chopi o'r holl ddogfennau gyda chi a gofynnwch am gael siarad â'r **person sy'n gyfrifol am ddelio â'ch cyfrif** neu â rheolwr y gangen. Ar y llaw arall ysgrifennwch at reolwr y gangen, gan amgáu copïau o'ch dogfennau, a **chadwch gopi** o'ch llythyr. Esboniwch eich problem yn dawel ond yn gadarn a gofyn am y gweithredu neu iawndal yr ydych yn dymuno'i gael.

- Os ydych yn **anfodlon** gydag ymateb rheolwr y gangen, fe ddylech ofyn am fanylion trefn gwyno'r banc neu gymdeithas adeiladu. Fe ddylech ddilyn bob cam yn y drefn gwyno trwy ysgrifennu at y rheolwr perthnasol, gan roi manylion llawn am eich achos a nodi pa weithredu y dymunwch. Ar ôl i chi gwblhau'r drefn gwyno fewnol, anfonir **llythyr ddiddatrys** atoch os nad yw'ch cwyn wedi'i ddatrys.

- Os **nad ydych yn gallu dod i gytundeb** gyda'r banc neu gymdeithas adeiladu, fe allwch symud eich cwyn ymlaen at **Wasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol** - gweler isod am fwy o wybodaeth. Gall yr Ombwdsmon archwilio'r mwyafrif o gwynion banc, ond mae yna rai eithriadau megis cwestiynu barn fasnachol y banc. Rhaid eich bod wedi dilyn trefn gwyno eich banc neu gymdeithas adeiladu, ac wedi trosglwyddo'ch cwyn i'r Ombwdsmon o fewn

Hawlfraint © 2002-2011 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

chwe mis i dderbyn ei benderfyniad terfynol. **Allwch chi ddim defnyddio cynllun Ombwdsmon ar ôl cymryd achos llys.**

- Os **na all yr Ombwdsmon ddatrys eich cwyn**, yr unig opsiwn arall sydd gennych i'w ystyried ydyw mynd i'r llys. **Cofiwch, mynd i'r llys yw eich opsiwn olaf.** Cyn dechrau achos llys mae angen i chi ystyried os oes gennych ddigon o dystiolaeth. Mae angen i chi ddarganfod hefyd os oes gan y banc neu gymdeithas adeiladu **ddigon o arian i dalu eich hawliad**. Nid yw'n werth erlyn cwmni sydd heb arian. **Mae erlyn banc neu gymdeithas adeiladu yn anghyffredin iawn. Os ydych chi'n ystyried gwneud hyn, fe ddylech gysylltu â chyfreithiwr**.

Sefydliadau sy'n delio â chwynion Banc a Chymdeithas Adeiladu

Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol

Rhaid cyflwyno'ch cwyn i'r Ombwdsmon o fewn chwe mis i'r llythyr ddiddatrys. Bydd yr Ombwdsmon yn ceisio delio â'ch cwyn yn anffurfiol ond os bydd hyn yn methu fe fydd yn gwneud **penderfyniad rhagarweiniol**. Fe allwch chi a'r banc neu gymdeithas adeiladu wneud sylwadau ar y penderfyniad, a bydd yr Ombwdsmon yn ystyried hyn ac yna'n gwneud argymhelliad neu ddyfarniad. Rhaid i'r banc neu'r gymdeithas adeiladu gydymffurfio â'r dyfarniad, ond os nad ydych chi'n fodlon, fe allwch chi gymryd achos llys. Sut bynnag, os gwnewch chi hynny, bydd y llys yn ystyried dyfarniad yr Ombwdsmon wrth benderfynu ar eich achos. Fe allwch gysylltu â'r Ombwdsmon ar 0845 080 1800 neu ymweld â'u gwefan yn www.financial-ombudsman.org.uk.

Awdurdod Gwasanaethau Ariannol

Yr awdurdod Gwasanaethau Ariannol (FSA) ydyw'r corff sy'n gyfrifol am reoleiddio banciau a chymdeithasau adeiladu. Ni allant fod yn rhan o gwynion unigolion, argymell cwmnïau neu roi cyngor cyfreithiol neu ariannol. Sut bynnag, mae gan yr FSA ddiddordeb mewn clywed am achosion lle mae banc neu gymdeithas adeiladu yn ymddangos eu bod yn torri eu cyfrifoldebau. Gall yr FSA, lle mae'n briodol, ddirwyo banc neu gymdeithas adeiladu.

Y Gwasanaeth Cynghori Ariannol

Mae'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol yn wasanaeth annibynnol, rhad ac am ddim. Mae gan eu gwefan, www.moneyadviceservice.org.uk, lawer o wybodaeth ddefnyddiol am gynhyrchion ariannol megis cyfrifon banc, gan gynnwys tablau cymharu ar gyfer gwahanol gyfrifon cynilo. Mae eu Llinell Cynghori Ariannol (0300 500 5000) yn gallu ateb eich ymholiadau cyffredinol am gynhyrchion a gwasanaethau ariannol.

Hawlfraint © 2002-2011 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Gwybodaeth arall ar Adviceguide a allai eich helpu

- Dechrau achos llys (Lloegr a Chymru)
- Benthyg arian

Caiff y dudalen ffeithiau hon ei chynhyrchu gan Gyngor ar Bopeth, enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Ei ddiben yw darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith. Mae'r wybodaeth yn berthnasol i Loegr, Cymru a'r Alban yn unig.

Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ar 8 Gorffennaf 2011, a chaiff ei adolygu bob mis. Os ydych wedi cael y daflen ffeithiau hon am gyfnod, cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth er mwyn gwirio os yw'r wybodaeth sydd arni yn dal i fod yn gywir. Neu rhowch glic ar ein gwefan - - www.adviceguide.org.uk - lle gallwch lawr lwytho copi diweddaraf.

Hawlfraint © 2002-2011 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr